

Cyngor Proffesiynau Iechyd

**Cynllun Iaith Gymraeg wedi ei baratoi o dan Ddeddf yr Iaith
Gymraeg 1993**

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Proffesiynau Iechyd

Derbyniodd Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Proffesiynau Iechyd gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 (1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar XXXXX

Egwyddor o gydraddoldeb

Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd yn ymroddedig i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weinyddu ei busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun hwn yn datgan y modd y bydd y Cymgor Proffesiynau Iechyd yn gweithredu'r egwyddor wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

1. Rhagair

Am y Cyngor Proffesiynau Iechyd (HPC)

1.1 Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd (HPC) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weinyddu ei busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn datgan y modd y bydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd yn gweithredu'r egwyddor wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Mae'r HPC yn rheolydd statudol y DU gyfan, ac fe'i sefydlwyd i ddiogelu'r cyhoedd. I wneud hyn, mae'r HPC yn cadw cofrestr o bobl broffesiynol sydd wedi cwrdd â'i safonau yn eu hyfforddiant, sgiliau proffesiynol, ymddygiad ac iechyd.

1.3 Gelwir pobl broffesiynol ar Gofrestr yr HPC yn 'gofrestreion' ac mae tua 200,000 ar y Gofrestr o 14 wahanol alwedigaeth.

- Therapyddion celfyddyd
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ceirologyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr mewn adrannau llawdriniaeth
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Seicolegwyr
- Prosthetegwyr / orthotegwyr
- Radiograffyddion
- Therapyddion lleferydd ac iaith

1.4 Fe all yr HPC reoleiddio galwedigaethau eraill yn y dyfodol. Mae'r rhestr ddiweddaraf o'r galwedigaethau y mae'n eu rheoleiddio i'w chael ar www.hpc-uk.org

1.5 Mae pob un o'r galwedigaethau hyn yn 'deitlau a ddiogelwyd' (mae teitlau a ddiogelwyd yn cynnwys teitlau fel 'ffisiotherapydd' a 'deietegydd'). Mae rhaid i unrhyw berson sy'n arddel un o'r teitlau hyn fod ar Gofrestr yr HPC. Mae unrhyw berson sy'n defnyddio teitl a ddiogelwyd nad yw wedi ei gofrestru â'r HPC yn torri'r gyfraith ac fe all gael ei erlyn.

1.6 Mae'r Gofrestr ar gael ar safle gwe'r HPC i rywun chwilio ynddi, fel gallant wirio bod eu person proffesiynol yn gofrestrdig.

1.7 Gall yr HPC ystyried cwynion y mae'n eu derbyn am y rhai sy'n gofrestrdig fel rhan o'i rôl o ddiogelu'r cyhoedd. Mae'n edrych ar bob cwyn mae'n ei dderbyn, i benderfynu a oes angen gweithredu. Gall yr HPC gynnal gwrandawriadau i ystyried y cwynion.

1.8 Lleolir yr HPC ar hyn o bryd yn Park House, 184 Kennington Park Road, Llundain, SE11 4BU ac mae'n cyflogi dros 100 o weithwyr. Nid yw'n rhagweld bydd ganddo swyddfa yng Nghymru yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, bwriada'r HPC gadw at y Ddeddf gan fod HPC yn rheolydd statudol y DU gyfan.

Sut rydym yn cael ein rheoli

1.9 Fe grëwyd yr HPC gan ddeddfwriaeth o'r enw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. Mae hwn yn datgan ei rôl ac yn rhoi ei rym cyfreithiol iddo. Mae gan yr HPC Gyngor sy'n cynnwys aelodau sy'n gofrestreion ac aelodau lleyg. Y Cyngor sy'n gosod y strategaeth a pholisi, ac yn sicrhau bod yr HPC yn cyflawni ei rôl.

1.10 Mae rhaid i bobl broffesiynol gofrestru â'r HPC cyn y gallent ddefnyddio un o'r teitlau a ddiogelwyd ar gyfer eu galwedigaeth. Mae hyn yn golygu mai, hyd yn oed os ydynt wedi cwblhau cwrs mewn, er enghraifft, ffisiotherapi, ni fuasant yn gallu galw eu hunain yn 'ffisiotherapydd' oni bai eu bod wedi eu cofrestru â'r HPC.

Ein rôl

1.11 Mae gan yr HPC bedair prif swyddogaeth. Mae'n:

- gosod safonau mae rhaid i geiswyr a'r rhai ar y Gofrestr eu cwrdd;
- cymeradwyo rhaglenni addysgiadol sy'n cwrdd â'i safonau;
- cofrestru unigolion sy'n cwrdd â'r safonau hynny; a
- gweithredu yn erbyn unigolion ar ei Gofrestr sydd ddim yn cwrdd â'r safonau hynny.

2. Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth

2.1 Mae'r HPC yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith y cwsmer fel rhan o wasanaeth o ansawdd ac yn cydnabod y diwylliant ac angenion ieithyddol y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae'r HPC yn gwbl ymroddedig i'r egwyddor bydd yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb.

Polisiau a mentrau newydd

2.2 Fel rhan o unrhyw gynnis newydd ar gyfer polisi newydd, fe gynhelir asesiad o effaith tebygol y fenter a gynigir ar y Cynllun Iaith Gymraeg. Fe fydd gallu eraill i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg hefyd yn cael ei ystyried.

2.3 Yn ychwanegol:

- Bydd gweithwyr ymhlyg mewn datblygu polisi'r HPC yn cael gwybod o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyfforddiant hefyd yn eu cynefino â gweithrediad, adrodd a chynlluniau gwerthuso ar gyfer y Cynllun.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau bydd polisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun ac na fyddant yn ei danseilio.
- Bydd y Cyngor yn oruchwylio paratoi, gweithredu a monitro parhaus o Gynllun Iaith Gymraeg yr HPC.

2.4 Fe fydd yr HPC yn cyhoeddi a dosbarthu canllawiau mewnol yn disgrifio mesurau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Cynllun.

2.5 Fe fydd yr HPC yn trafod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg o flaen llaw mewn perthynas â chynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun.

2.6 Ni fydd y Cynllun yn cael ei newid heb ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyflwyno gwasanaethau

2.7 Mae'r HPC yn ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth dwy-ieithog yn unol â chynnwys y Cynllun.

Safonau gwasanaethau yn y Gymraeg

2.8 Mae'r HPC yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth llawn cystal yng Nghymru trwy'r Gymraeg a'r Saesneg a bydd hyn yn cael ei ddynodi ar safle gwe'r HPC ac mewn dogfennau allweddol, er enghraifft ein hadroddiad blynyddol a'n datganiadau ariannol.

Mesurau cefnogol

2.9 Fe fydd yr HPC yn cynnwys manylion o'r safonau gwasanaethau mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Iaith Gymraeg yn ei adroddiad blynyddol.

3. Cyfathrebu gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

3.1 Prif ddyletswydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd, fel y'i hamlinellir yn y Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001, yw diogelu iechyd a lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r cofrestreion ar draws y DU.

Mynediad cyhoeddus i'r HPC

3.2 Wrth gyflwyno ei wasanaethau yn unol â chynnwys y Cynllun, fe fydd yr HPC yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd gweithredu ymhle mae cysylltiad rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd fwyaf.

3.3 Mae'r HPC yn ymroddedig i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu dewis iaith neu fformat.

3.4 Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr HPC yn:

- cadarnhau dewis iaith yr hapddaliwr yn gynnar;
- trefnu i wasanaethau gael eu darparu yn uniongyrchol neu thrwy gyfieithiad yn y dewis iaith;
- sicrhau bod pob gweithiwr HPC yn gwybod am Gynllun Iaith Gymraeg yr HPC a sut bydd cyfathrebu yn y Gymraeg yn cael ei drin a gan bwy; a
- hysbysebu'n glir argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg.

3.5 Mae'r adran sy'n dilyn yn delio ag enghreifftiau penodol o le byddai'r Cynllun yn cael ei weithredu.

Cyfathrebu ysgrifenedig

3.6 Bydd yr HPC yn ymroddi ei hun i allu delio ag ymholiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar unrhyw gyfathrebiadau y'u bwriadwyd ar gyfer eu dosbarthu neu eu defnyddio yng Nghymru. Bydd llythyrau neu e-byst yn y Gymraeg yn cael eu hateb a'u llofnodi yn y Gymraeg ac oddi mewn i'r un lefelau gwasanaeth â gohebiaeth yn y Saesneg.

3.7 Ar gyfer gohebiaeth a dderbynir yn y Saesneg, bydd HPC yn ateb yn awtomatig yn y Saesneg, oni bai y nodir yn wahanol.

3.8 Ar gyfer cyfathrebiadau wedi eu hanfon gan fwy nag un aelod o'r cyhoedd (e.e. ymgyrch wybodaeth gyhoeddus neu wahoddiad i ddigwyddiad sy'n cymryd lle yng Nghymru yn unig) yna bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu yn y Saesneg a'r Gymraeg.

Cyfathrebu dros y ffôn

3.9 Os yw'r alwad yn cael ei hadnabod fel un yn tarddu o Gymru, fe fydd y cyfarchiad yn y Saesneg gan nad oes gan yr HPC unrhyw weithwyr sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnig i'r galwr barhau â'r alwad yn Saesneg neu o roi ei (h)ymholiad i ni'n ysgrifenedig.

3.10 Bydd yr HPC yn cyhoeddi canllawiau ar ddelio â galwadau ffôn, a sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'r protocol pan dderbynir galwadau gan siaradwyr Cymraeg.

3.11 Bydd yr HPC yn monitro'r galw am ddarpariaeth i sicrhau bod yr opsiwn o allu derbyn a delio â galwadau yn y Gymraeg o'r dechreuad yn cael ei ystyried.

Cyfarfodydd cyhoeddus

3.12 Bydd hysbysiadau o gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwy-ieithog. Bydd hysbysiadau o'r fath yn ei gwneud hi'n glir bydd croeso i'r cyhoedd siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd pob cyfarfod cyhoeddus yng Nghymru â chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg yn bresennol, yn galluogi holi ac ateb cwestiynau yn y ddwy iaith fel ei gilydd. Ar gyfer achosion o addasrwydd i ymarfer a gynhelir yng Nghymru, ewch i'r adran ar wahân isod.

3.13 Byddwn yn darparu canllawiau i gadeirydd y cyfarfod ar gynnig y dewis o iaith.

3.14 Bydd papurau ac agendâu ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwy-ieithog. Bydd yr HPC hefyd yn defnyddio deunyddiau stondin arddangos sy'n wynebu'r cyhoedd a deunyddiau arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg

Cyfieithu

3.15 Mae'r HPC eisoes yn defnyddio cyfieithwyr Cymraeg i sicrhau gwasanaeth o ansawdd da i'n siaradwyr Cymraeg. Mae'r HPC yn rhoi ymrwymiad i barhau â hyn.

Safle gwe HPC

3.16 Rydym wedi cyhoedd tudalennau Cymraeg sy'n egluro cyfrifoldebau allweddol yr HPC a sut i gwyno ar ein safle gwe. Maent yn hawdd cael mynediad iddynt o'n tudalen gartref. Enw'r tudalennau yw:

- Beth yw'r HPC?
- Gwybodaeth am y proffesiynau rydym ni'n eu rheoleiddio.
- Sut i wneud cwyn.

3.17 Bydd datganiadau i'r wasg pan fyddant ar gyfer cynulleidfa Gymreig benodol ar gael o'n hystafell y wasg ar y safle gwe yn y Gymraeg.

3.18 Rydym wedi cyhoeddi cyfieithiadau o amryw o gyhoeddiadau'r HPC ar ein safle gwe.

4. Wyneb cyhoeddus y corff

Hunaniaeth gorfforaethol

4.1 Rydym wedi datblygu hunaniaeth gorfforaethol Gymreig yr ydym yn ei defnyddio yng Nghymru. Bydd cyfieithiad Cymraeg o enw a chyfeiriad y Cyngor Proffesiynau Iechyd yn ymddangos ar unrhyw ymatebiadau a chylch-lythyrau a anfonir i Gymru.

Cyhoeddiadau

4.2 Mae'r HPC yn cyhoeddi nifer o ddogfenau ar gyfer amryw o bwrpasau. Bydd y canlynol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg:

- Datganiadau i'r wasg (lle maent yn berthnasol i faterion penodol i Gymru)
- Pwy sy'n rheoleiddio pobl broffesiynol iechyd? (taflen ar reoleiddio iechyd)
- Sut i wneud cwyn am berson iechyd proffesiynol

Mae'n bosibl bydd cyhoeddiadau eraill a gwybodaeth arall i'r cyhoedd gennym gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dyfodol.

4.3 Bydd safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall wedi eu hanelu at bobl broffesiynol yn y Saesneg. Fodd bynnag, byddwn yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.

4.4 Bydd bob cyhoeddiad sydd angen ei gyflwyno'n ddwy-ieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei gyflwyno mewn un cyhoeddiad dwy-ieithog.

4.5 Mae pob dogfen yr HPC ar gael am ddim. Fodd bynnag, pe bai cost yn glynu wrth gyhoeddiad, bydd prisiau'r copïau'r Saesneg a Chymraeg neu'r copïau dwy-ieithog yr un fath.

Hysbysiadau i'r wasg

4.6 Bydd yr HPC yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac adroddiadau i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwy-ieithog pan fyddant yn berthnasol i faterion Cymreig. Bydd cyfieithiadau mewn cynhadleddau i'r wasg yng Nghymru ar gyfer gohebwyr yn cael eu darparu.

4.7 Efallai bydd adegau lle nad yw'n bosibl trefnu cyfieithiad o ddatganiad brys i'r wasg cyn ei gyhoeddi. Lle mae hyn yn digwydd, trefnir cyfieithiad cyn gynted â phosibl.

Hysbysebu cyhoeddus

4.8 Bydd yr HPC yn rhedeg hysbysebu cyhoeddus ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwy-ieithog, mewn dull fydd yn trin y ddwy iaith ar sail cyfartaledd. Yn benodol, bydd yr HPC yn sicrhau bod hysbysebu penodol i Gymru yn cael ei gynhyrchu'n ddwy-ieithog yn y cyfryngau canlynol:

- Hysbysebu ar drafnidiaeth gyhoeddus (lle mae'r drafnidiaeth gyhoeddus yn unigryw i Gymru)

- Hysbysebu ar fyrddau poster (lle mae safle'r bwrdd poster yng Nghymru)
- Hysbysebu mewn cylchgronnau/papurau newydd (lle mae'r cyhoeddiad wedi ei anelu at gynulleidfa Gymreig yn unig neu lle mae iddo/iddi argraffiad Cymreig)

4.9 Bydd yr HPC yn sicrhau bod unrhyw hysbysebion wedi eu cynhyrchu ar gyfer Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.10 Pan mae ymgyrch hysbysebu trwy'r DU gyfan yn cael ei redeg bydd yr hysbysebion a gynhyrchir yn y Saesneg.

Hysbysebu am recriwtio gweithwyr

4.11 Pan fyddwn yn recriwtio gweithwyr lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbysebion recriwtio yn y Gymraeg yn unig. Ymhle mae'r iaith yn ddymunol, bydd hysbysebion yn y wasg genedlaethol a Chymreig yn ddwy-ieithog.

5. Mynediad y cofrestrai a'r hapddaliwr i'r HPC

Achosion o addasrwydd i ymarfer

5.1 Mae ein hachosion o addasrwydd i ymarfer yn rhan allweddol o'n rôl o ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r adran hon yn gosod allan cefnogaeth y Cyngor Proffesiynau Iechyd i'r egwyddor yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef, wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Cefndir

5.2 Mae Erthygl 22(7) o'r Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (Gorchymyn 2001) yn darparu bod rhaid i achosion o addasrwydd i ymarfer gael eu cynnal yn y wlad yn y DU ymhle mae'r cofrestrai wedi ei (l)leoli. O ganlyniad, os yw cyfeiriad cofrestredig y cofrestrai yng Nghymru, mae rhaid i unrhyw wrandawriad neu gyfarfod rhagarweiniol gymryd lle yng Nghymru. Yn ychwanegol mae rhaid i wrandawriad ar apêl cofrestriad hefyd gymryd lle yng Nghymru os yw'r apelydd yn trigo yno.

5.3 Mae gwrandawiadau o addasrwydd i ymarfer yn cael eu clywed gan banel o dri pherson sy'n cynnwys cofrestrai ac aelodau lleyg. Wrth benderfynu ar wneuthuriad panelau, mae'n bwysig bod un aelod o'r panel o'r un alwedigaeth â'r cofrestrai. Mae rhai o'r galwedigaethau hyn yn gymharol fach o ran maint. Mae hi felly yn bwysig y rhoddir rhybudd i'r HPC pan mae cofrestreion neu achwynyddion yn dymuno cynnal gwrandawriad trwy gyfrwng y Gymraeg fel gall trefniadau addas gael eu gwneud.

5.4 Mae'r Cynllun hwn yn gosod allan y trefniadau mae'r HPC wedi eu sefydlu i sicrhau bod yr egwyddor sydd wedi ei ymgorffori yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael ei barchu a bod gwrandawiadau ac achosion yn y Gymraeg yn cael eu cynnal a'u rheoli'n effeithiol.

5.5 Dylid nodi bod y trefniadau a osodir allan yn y Cynllun hwn ond yn berthnasol i achosion o addasrwydd i ymarfer ac apêl sy'n cymryd lle yng Nghymru.

Rheoli achosion

5.6 Er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael ar gyfer cynnal achosion drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y partïon neu'r rhai sy'n eu cynrychioli yn cael eu hannog i hysbysu'r Cyngor cyn gynted â phosibl o'u dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.7 Lle mae'n bosibl y gall y Gymraeg gael ei defnyddio gan unrhyw barti neu dyst neu mewn unrhyw ddogfen a all gael ei gosod gerbron y panel, fe anogir y partïon neu eu cynrychiolwyr i ddweud wrth yr HPC o'r faith cyn gynted â phosibl fel gall trefniadau priodol gael eu gwneud ar gyfr rheoli'r achos.

5.8 Ni ddylai darpariaeth o'r wybodaeth hon gael ei oedi oherwydd nad oes gan barti wybodaeth neu fanylion pendant am y defnydd o'r Gymraeg yn yr achos.

5.9 Bydd arwydd yn y camau cyntaf gall y Gymraeg gael ei defnyddio yn yr achos yn gaffaeliant i reoli'r achos yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, unwaith bydd mwy o wybodaeth fanwl yn dod ar gael fe ddylai gael ei phasio ymlaen i'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys manylion o:

- unrhyw berson sy'n dymuno rhoi tystiolaeth lafar yn y Gymraeg; ac
- unrhyw ddogfennau neu gofnodion yn y Gymraeg mae'r person hwnnw yn disgwyl eu defnyddio.

Cyfarfodydd rhagarweiniol

5.10 Mewn unrhyw gyfarfod rhagarweiniol y mae'n ei gynnal, bydd y Panel yn achub y cyfle o ystyried a ddylai roi cyfarwyddiadau ar gyfer rheoli'r achos. Mae hyn yn cynnwys cynnig dewis iaith i'r partion neu'r cynrychiolwyr.

5.11 Er mwyn helpu'r panel, dylai'r partion neu eu cynrychiolwyr dynnu sylw'r panel at y posibilrwydd o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr achos, hyd yn oed pan mae'r wybodaeth hon eisoes wedi ei darparu i'r HPC.

5.12 Mewn unrhyw achos lle mae parti eisoes wedi hysbysu'r HPC gall y Gymraeg gael ei defnyddio yn yr achos, lle bynnag fo hynny'n briodol, dylid cadarnhau hyn neu beidio (yn ôl yr achos) yn y cyfarfod rhagarweiniol.

Cyfieithwyr ar y pryd

5.13 Os oes angen cyfieithydd ar y pryd i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, fydd y panel yn apwyntio cyfieithydd ar y pryd. Lle bynnag mae hynny'n bosibl, ac oni bai fod natur yr achos yn galw am ryw arbenigedd ieithyddol, fe fydd y cyfieithydd ar y pryd yn cael ei (d)dewis o restr cyfieithwyr ar y pryd wedi ei chymeradwyo gan y Llysoedd.

Llwon a chadarnhadau

5.14 Pan mae tystion yn cael eu galw yn ystod gwrandawiadau, bydd y swyddog gwrandawiadau sy'n gweinyddu'r llw neu gadarnhad yn eu hysbysu gallent ddewis tyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

6. Gweithredu a monitro'r Cynllun

Gweithwyr a'u cyfrifoldebau

6.1 Tra bod cyfrifoldeb terfynol am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg gyda'r Brif Weithredwr, y Rheolwr Polisi fydd yn arolygu gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd.

6.2 Bydd y Rheolwr Polisi, yn cael ei gefnogi gan y grŵp Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn sicrhau bod y rhai ymhlwg mewn recriwtio a hyfforddi yn dod yn ymwybodol o'u goblygiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

6.3 Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb i roi ar waith yr agweddau hynny o'r Cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy.

6.4 I sicrhau effeithiolrwydd ein Cynllun Iaith Gymraeg, fe hysbysir ein gweithwyr o ofynion ein Cynllun a'i goblygiadau ar weithgareddau o ddydd i ddydd.

Hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru

6.5 Bydd unrhyw berson yn rhyngweithio â'r cyhoedd ac yn dymuno dysgu Cymraeg yn cael ei annog a'i gefnogi i wneud hyn gan yr HPC yng nghyd-destun eu goliau a'u targedau cyflawn a rheiny'r corff.

Recriwtio yng Nghymru

6.6 Bydd yr HPC yn canfod os oes unrhyw swyddi lle mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn hanfodol a rhai lle mae'n ddymunol, er mwyn canfod y lefel o ruglder sydd ei angen. Bydd hy yn cael ei adlewyrchu mewn disgrifiadau swydd a'r manylion personol o ganlyniad.

6.7 Bydd hysbysiadau recriwtio yn ymddangos yn dwy-ieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru ac yn y Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Byddant hefyd yn ymddangos yn ddwy-ieithog yn adran recriwtio safle gwe'r HPC os yw'r gallu yn y Gymraeg yn fedr allweddol sydd ei angen ar gyfer y swydd a hysbysebir.

Ymgymerydd trydydd parti

6.8 Bydd pob ymgymerydd trydydd parti yn cael ei wneud yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg yr HPC ac unrhyw goblygiadau penodol. Lle bydd y gwaith yn cynnwys cyfathrebu yng Nghymru, bydd unrhyw gontract trydydd parti, yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Iaith Gymraeg yr HPC ac yn dynodi y gwasanaeth yn y Gymraeg sydd ei angen. Bydd sylw arbennig yn cael ei dynnu at y rhannau perthnasol o'r Cynllun mae disgwyl iddynt weithredu.

6.9 Lle mae contract wedi ei dendro ar gyfer darpariaeth gwasanaethau yn unigryw I Gymru, bydd y ddogfen honno, y contract a'r amodau yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg.

6.10 Bydd perfformiad yn erbyn y contract yn cael ei monitro'n erbyn cydymffurfiad.

Graddfeydd amser a thargedau

6.11 Mae graddfeydd amser a thargedau ar gyfer rhoi ein Cynllun ar waith i'w canfod yn ein cynllun gweithredu (Atodiad A).

Monitro'r Cynllun

6.12 Bydd yr HPC yn paratoi adroddiadau datblygiad mewnol mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun a'u cyflwyno i'r grŵp monitor (Cyngor yr HPC) bob chwe mis.

6.13 Bydd yr HPC yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn:

- mesur a yw'r HPC yn cydymffurfio â 'r Cynllun;
- mesur a yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n briodol;
- dadansoddi ei berfformiad at sail adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb;
- asesu ac ystyried themau allweddol yng ngweithrediad y Cynllun; a
- chydabod unrhyw wendidau sylfaenol a sefydlu yn llun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen i ddelio â hwy.

6.14 Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol. Yn nhrydedd flwydd gweithrediad y Cynllun bydd yr HPC yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn asesu a gwerthuso perfformiad gweithredu'r Cynllun o'i gychwyniad. Bydd yr adroddiad yn:

- darparu arolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaid a pherfformiad dros dair blwyddyn gyntaf y Cynllun (o ddau bersbectif, cyflwyno gwasanaeth a rheolaeth y Cynllun); ac
- amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig o weithredu mesurau yn y Cynllun.

6.15 Ar ôl canfod y blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r amserlen ddiwygiedig wedi ei chynhyrchu, bydd yr HPC yn adolygu a diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

6.15 Bydd adroddiad cryno'n cael ei bostio ar safle gwe'r HPC

7. Cyhoeddiad y Cynllun

7.1 Bydd yr HPC yn cyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg i'r cyhoedd a hapddalwyr eraill drwy:

- ei bostio ar safle gwe'r HPC;
- ddsbarthu datganiad i'r wasg (dwy-ieithog); a
- gwneud pob grŵp hapddalwyr perthnasol fel cyrff proffesiynol, cyflogwyr a chymdeithasau cleifion yn ymwybodol o'r Cynllun.

Gwella'r Cynllun

7.2 Mae'r HPC yn croesawu gwelliannau i'r Cynllun. Dylai pob sylw neu awgrymiad gael ei gyfeirio at yr Adran Bolisi a Safonau (Cynllun Iaith Gymraeg) a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses fonitro.

7.3 Archwilir pob cwyn mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun a bydd yr hyn a wneir yn cael ei bwysleisio yn yr adroddiadau a'r datganiadau ariannol blynyddol sy'n cael eu cyhoeddi gan y Cyngor. Bydd cwynion yn cael eu derbyn yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddant ill dau yn cael eu delio â hwy oddi mewn i'r un raddfa amser.

Atodiad 1: Cynllun gweithrediad

		Llinell amser	Arweinydd
1	Ymgynghori ar y Cynllun Iaith Gymraeg am 12 wythnos.	Q1/Q2 2010	Rheolwr Polisi
2	Cynllun iaith Gymraeg yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Q2 2010	Rheolwr Polisi
3	Cynllun iaith Gymraeg yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor	Q3 2010	Rheolwr Polisi
4	Cyhoeddi Cynllun terfynol ar safle gwe'r HPC yn yr Adran Gymraeg	Q3 2010	Rheolwr Polisi a Rheolwr Gwe
5	Cyflwyno hyfforddiant i bob gweithiwr ar y Cynllun	Q3 2010	Rheolwr Polisi
6	Sicrhau bod polisiau corfforaethol yn adlewyrchu ein hymroddiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg	O Q3 2010 ymlaen	Rheolwr Polisi gyda'r grŵp Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
7	Cynnwys Cynllun yr Iaith Gymraeg mewn cynlluniau ysgogi gweithwyr	Q4 2010 ymlaen	Rheolwr Polisi a Chyfarwyddwr Personél
8	Cyd-weithio â'r asiantaeth gyfieithu ar safonau ar gyfer cyfieithu datganiadau i'r wasg.	Q4 2010	Rheolwr y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus
9	Cynhyrchu arddangosfa a deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwy-ieithog	Q4 2010 ymlaen	Cyfarwyddwr Cyfathrebu i arolygu
10	Cyflwyno datganiadau i'r wasg trwy gyfrwng y Gymraeg	Q1 2011	Rheolwr y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus
11	Asesu a gwerthuso perfformiad cyflwyno'r Cynllun. Darparu diweddariadau blynyddol	Q3 2011	Rheolwr Polisi gyda'r grŵp Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
12	Adolygu a diweddarau'r Cynllun fel rhan o adolygiad 3 blynedd	Q3 2013	Rheolwr Polisi gyda'r grŵp Cydraddoldeb ac Amrywioldeb